Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru

BWEA Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru

Rhifyn 05 - Mai 2007

Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, a fyddech cystal â sicrhau eich bod yn tanysgrifio i rifynnau electronig yn y dyfodol drwy fynd i www.bwea.com/mail.

Canlyniad Etholiad i Wynt

Fe wnaeth yr etholiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar i Gynulliad Cymru ddangos pryder y cyhoedd ynglŷn â'r hinsawdd a'r dymuniad i weithredu'n syth i leihau gollyngiadau carbon deuocsid. Fe wnaeth y prif bleidiau gwleidyddol roi blaenoriaeth uchel i'r newid yn yr hinsawdd ac i faterion amgylcheddol eraill yn eu maniffestos, ac fe fu dadlau brwd ar y pwnc ar drothwy drysau ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, fe wnaeth ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol weithiau fethu â rhoi'u cefnogaeth ddigamsyniol i ynni gwynt ar y tir, fel y dechnoleg ynni glân mwyaf ymarferol, yn wyneb gwrthwynebiad cydunol a digyfaddawd grwpiau bychain.

Fe wnaeth canlyniadau'r etholiad ddangos bod y lleisiau hyn o anniddigrwydd mewn gwirionedd yn y lleiafrifoedd lleiaf. Fe wnaeth dau ymgeisydd annibynnol a safodd ar ran y grŵp gwrth-wynt, De Cymru yn Erbyn Technoleg Dyrbin / South Wales Against Turbine Technology (SWATT), ond llwyddo i ennill 0.4% o gyfanswm y pleidleisiau yn rhanbarthau'r Canolbarth a Gorllewin, a De Orllewin Cymru. Yr oedd hyn er gwaethaf cynnal ymgyrch negyddol iawn, a oedd yn golygu dosbarthu taflenni yn llawn o wybodaeth amheus yn ymwneud ag ynni gwynt.

Y mae BWEA yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif llethol o'r cyhoedd wedi gweld drwy gwynfanau cyson a honiadau ffug grwpiau gwrth-wynt, ac fe fyddent yn hoffi atgoffa Aelodau'r Cynulliad sydd newydd eu hethol o'u dyletswydd foesol i gefnogi polisïau a fydd yn gwrthweithio'n uniongyrchol effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Chwythu Chwedl y Gwynt i Ffwrdd

Un o'r chwedlau cyffredin am ffermydd gwynt yw'u heffeithiau ar brisiau tai. Fel yr adroddwyd yn y Western Mail ar y 12fed o Fai, fe ddengys ymchwil gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a Phrifysgol Brookes Rhydychen mai chwedl yw hyn, heb unrhyw berthynas eglur rhwng agosrwydd ffermydd gwynt at gartrefi a phrisiau eiddo. Fe ddywedodd Cathy McLean, cyfarwyddwr RICS Cymru, "*Y mae gwrthwynebiadau yn aml yn ymwneud llai â phryderon lleol ac yn ymwneud mwy â materion ideolegol ehangach.*" Gweler www.bwea.com/media/news/070328.html.

Gwrandawiad Apêl Wern Ddu

Y mae'n ymddangos bod triawd o ddatblygwyr fferm wynt yng Nghymru, sydd wedi cyfuno'u hymdrechion, ar fin cyflwyno cynigiad ar gyfer mwy na 100 MW yn Ardal Chwilio Strategol 'A' a nodwyd yn ardal Conwy / Sir Ddinbych.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus diweddar, fe all mai'r cyntaf heibio i'r postyn fydd datblygiad Tegni yn Wern Ddu, sydd wedi bod yn y gyfundrefn ers dros saith mlynedd, ac sydd wedi cael cefnogaeth anhygoel gan bobl leol, sydd yn ymwybodol iawn o'r problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth a mathau eraill o fusnes yn y wlad, ac sy'n gweld ffermydd gwynt fel ffynhonnell cyfraniadau ariannol i'w croesawu i'r economi lleol.

Gan adeiladu ar eu cysylltiadau cymunedol cryfion, y mae gan Tegni drefniant gyda'r Urdd i ganiatáu i ysgolion o bob cwr o Gymru ymweld â'u fferm wynt yn Llangwm, Gogledd Cymru. Y mae o leiaf 250 o blant yn ymweld bob blwyddyn, ynghyd ag eraill sydd â diddordeb, ac y mae cyfraniadau elusennol hefyd wedi'u codi gan bobl sy'n dymuno gwibdaith arbennig i fyny un o'r tyrbinau.

Fe wnaeth Huw Smallwood o Tegni fwrw'r sylwadaeth, "*Y mae ffynonellau adnewyddadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y mae'r bobl ifanc i gyd yn hoffi'r tyrbinau, sydd ond yn cryfhau'n penderfyniad i lwyddo. Y mae'n bryd i'n penderfyniad gael ei rannu gan wleidyddion lleol, sydd, drwy gyhoeddi TAN8, â'r cyfle delfrydol yn awr i gynorthwyo i hwyluso dyfodol gwyrddach, glanach.*"

Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2010, ac y mae Bwletin Ynni Cymru yn cadw golwg ar gynnydd. Nid oes yna MW ychwanegol wedi'i gynhyrchu gan bŵer gwynt ar y tir ers mis Mehefin 2006, sy'n golygu bod Cymru yn 75% yn hwyr yn ôl yr amserlen.

Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



Cysylltwch â Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

croesawch y chwyldro
www.embracewind.com